***Polisi E-ddiogelwch***
***E-Safety Policy***

***Ysgol Pentreuchaf***

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted:***
***Dyddiad Adolygu/Review Date:***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: ___________________________________________________**

**Dyddiad: ____________________________**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Polisi e-Ddiogelwch yn rhan o'r Cynllun Datblygu Ysgol ac mae'n ymwneud â pholisïau eraill gan gynnwys y rhai TGCh, bwlio ac amddiffyn plant.

1.2 Mae ein Polisi e-Ddiogelwch wedi'i gytuno gan yr uwch dîm ac wedi'i gymeradwyo gan y llywodraethwyr.

## 2. Dysgu ac addysgu

2.1 Mae'r rhyngrwyd a chyfathrebu digidol yn bwysig oherwydd:

- Mae'r rhyngrwyd yn elfen hanfodol ym mywyd yr 21ain ganrif ar gyfer addysg, busnes a rhyngweithio cymdeithasol. Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i gyflwyno mynediad o ansawdd dda i'r rhyngrwyd fel rhan o'u profiad dysgu
- Mae defnyddio'r rhyngrwyd yn rhan o'r cwricwlwm statudol ac mae'n offeryn hanfodol i staff a disgyblion

2.2 Bydd defnyddio'r rhyngrwyd yn fanteisiol i addysg oherwydd iddo:

- Roddi mynediad i adnoddau addysgol ledled y byd
- Alluogi cydweithio ar draws gwasanaethau cefnogi a chymdeithasau proffesiynol
- Gyfnewid data'r cwricwlwm a gweinyddiaeth gyda'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.3 Bydd defnyddio'r rhyngrwyd yn gwella dysgu disgyblion oherwydd:

- Caiff y mynediad i'r rhyngrwyd yn yr ysgol ei ddylunio'n benodol at ddefnydd disgyblion a bydd yn cynnwys hidlo sy'n berthnasol i oedran y disgyblion
- Caiff y disgyblion eu dysgu pa ddefnydd o'r rhyngrwyd sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n anerbyniol a rhoi amcanion clir ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd
- Caiff disgyblion eu haddysgu i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol wrth ymchwilio, gan gynnwys sgiliau gwybodaeth, lleoli, adennill a gwerthuso
- Caiff disgyblion eu dysgu sut i gyhoeddi a chyflwyno gwybodaeth i gynulleidfa ehangach.

2.4 Bydd disgyblion yn dysgu sut i werthuso cynnwys y rhyngrwyd trwy:

- I'r ysgol sicrhau y bydd defnyddio deunyddiau'r rhyngrwyd gan staff a disgyblion yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint
- I ddisgyblion yn dysgu am bwysigrwydd gwirio gwybodaeth cyn derbyn ei bod yn gywir
- I'r disgyblion yn dysgu sut i adrodd am unrhyw gynnwys annymunol ar y rhyngrwyd e.e. defnyddio'r eicon CEOP Adrodd am Gamdriniaeth

## 3. Rheoli Systemau Gwybodaeth

### 3.1 Diogelwch systemau gwybodaeth

- Caiff systemau TGCh yr ysgol eu hadolygu'n rheolaidd
- Caiff y system amddiffyn yn erbyn firysau ei diweddaru'n rheolaidd
- Caiff strategaethau diogelwch eu trafod â'r Awdurdod Lleol

### 3.2 E-bost

- Gall disgyblion ddefnyddio cyfrifon e-bost cymeradwy ar system yr ysgol
- Rhaid i ddisgyblion ddweud wrth athro/athrawes ar unwaith os ydynt yn derbyn e-bost sarhaus
- Wrth gyfathrebu drwy e-bost, ni ddylai disgyblion ddatgelu eu manylion personol na manylion unrhyw un arall, neu drefnu i gwrdd ag unrhyw un heb ganiatâd penodol
- Ni chaniateir anfon llythyron cadwyn
- Dylid trin e-byst sy'n dod i mewn yn amheus ac ni ddylech agor dogfennau wedi'u hatodi nes dod i hyd i'r awdur
- Dylai'r ysgol ystyried sut caiff e-byst gan ddisgyblion i gyrff allanol eu gosod a'u rheoli

### 3.3 Cynnwys a gyhoeddir a gwefan yr ysgol

- Ni chyhoeddir gwybodaeth gyswllt staff na disgyblion. Dylai'r manylion cyswllt a roddir ar-lein fod yn fanylion swyddfa'r ysgol.
- Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am olygu cyffredinol ac yn sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn addas.

### 3.4 Cyhoeddi delweddau o ddisgyblion a'u gwaith

- Dewisir ffotograffau sy'n cynnwys disgyblion yn ofalus fel na ellir adnabod disgyblion unigol na chamddefnyddio'r delweddau. Byddwn yn ystyried defnyddio ffotograffau grŵp yn hytrach na lluniau o wynebau llawn y plant.
- Ni chaiff enwau llawn disgyblion eu defnyddio yn unman ar wefan yr ysgol neu ar unrhyw wefan arall, yn enwedig gyda ffotograffau.
- Bydd rhaid cael caniatâd gan rieni neu ofalwyr cyn cyhoeddir lluniau o'r disgyblion ar wefan yr ysgol.
- Gellir cyhoeddi gwaith gyda chaniatâd y disgybl a'i rieni/gofalwyr yn unig.
- Ni fydd enwau ffeiliau delweddau plant yn cyfeirio at y plentyn wrth ei enw.
- Dylai rhieni ddeall polisi'r ysgol ar dynnu lluniau a'u cyhoeddi, wrth storio yn yr ysgol ac ar offer electronig annibynnol.

### 3.5 Diogelu data personol

Caiff data personol ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo a'i wneud ar gael yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

## 4. Beth mae cyfathrebu electronig yn ei gynnwys?

- Cyfryngau cydweithredu ar y Rhyngrwyd: safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gwe-logiau (blogiau)
- Ymchwil ar y Rhyngrwyd: gwefannau, peiriannau chwilio a phorwyr gwefan
- Ffonau symudol a thabledi cyfrifiadurol
- Cyfathrebu ar y Rhyngrwyd: e-bost a negeseua sydyn
- Gwe-gamerâu a fideogynadledda
- Consolau gêmau diwyfr

### 4.1 Rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol

- Caiff safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol a grwpiau newyddion eu hidlo oni bai y cymeradwyir defnydd penodol.
- Rhoddir cyngor i ddisgyblion na ddylent gyflwyno manylion o unrhyw fath a allai olygu bod rhywun yn gallu eu hadnabod, adnabod eu ffrindiau na'u lleoliad.
- Yn ddelfrydol, byddai disgyblion yn defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol safonol yn unig, e.e. SuperClubs Plus
- Rhoddir cyngor i ddisgyblion a rhieni y gallai defnyddio safleoedd rhyngweithio cymdeithasol y tu allan i'r ysgol achosi amrywiaeth o beryglon i ddisgyblion.
- Rhoddir cyngor i ddisgyblion ddefnyddio llysenwau ac afatar wrth ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

## 5. Gwersi Ffrydio Byw

Mewn amgylchiadau eithriadol gall fod angen defnyddio technoleg ffrydio byw. Mae'r dechnoleg yma'n canitau i aelod o staff addysgu criw o ddisgyblion heb fod yn yr un lle. Gall yr athro a'r disgyblion fod yn eu catrefi e.e

### 5.1 ***Diogelu dysgwyr a'u lles yw'r peth pwysicaf, ac mae hynny'n cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill wrth gynllunio gwersi ffrydio byw.***

- Dylech barhau i ddilyn polisïau diogelu'ch ysgol bob amser. Dylid delio â phob mater sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein yn yr un ffordd ag y byddech yn delio â mater sy'n ymwneud â dysgu wyneb-yn-wyneb.

- Os oes gennych chi unrhyw bryderon diogelu am blentyn, dylech eu trafod â'r Person Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant.

**5.2** Cyn ffrydio gwersi byw dylid ystyried pwrpas, manteision a chyfyngiadau gwers sy'n cael ei ffrydio'n fyw.

- Dylid ystyried a yw dull arall yn fwy addas, e.e. os yw'r athro yn bwriadu dangos sut mae gwneud rhywbeth, efallai y byddai fideo yn fwy addas.

- Meddwl pa ddysgwyr fydd ar gael, e.e. a fydd yr holl ddysgwyr ar gael, a fydd angen i rai ymuno neu adael ar adegau gwahanol? Argymhellir ystyried nifer y dysgwyr ar sesiwn.

**5.3** Dylid sicrhau bod hyd y gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw yn addas ar gyfer eich dysgwyr.

**5.4** Dylid sicrhau bod y wers yn cael ei chynllunio ymlaen llaw, a dylid rhoi digon o rybudd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at ba mor ddiogel fydd y sesiwn yn ogystal.

- Dylid sicrhau bod yr holl gynnwys yn briodol, ac ar gyfer unrhyw dasgau a fydd yn golygu gwneud ymchwil ar-lein, gwneud yn siŵr bod y gwefannau'n addas cyn y wers.

- Dylid sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad at raglenni meddalwedd angenrheidiol.

- Os yw'r wers yn cynnwys tasgau, cofiwch y bydd angen mwy o amser ar rai dysgwyr o bosib.

**5.5** Dylid sicrhau caniatad yr uwch dim rheoli i ffrydio gwersi byw gan roi gwybod iddyn nhw beth yw'r amserlen ar gyfer pob gwers. Ni ddylid cynnal gwesi ffrydio byw heb yn wybod i'r uwch dim rheoli.

**5.6** Dylid gwneud yn siŵr bod cytundebau defnydd priodol yn eu lle ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n rhan o wers sy'n cael ei ffrydio'n fyw. Bydd y cytundeb yn nodi disgwyliadau clir pob parti, ac yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd os na fydd rhywun yn cydymffurfio â'r cytundeb.

**5.7 Ymddygiad proffesiynol**

Dylai unrhyw waith ffrydio byw ddigwydd yn wirfoddol, a dylai ymarferwyr addysg sy'n dewis ffrydio'n fyw barhau i weithio mewn ffordd broffesiynol fel y byddent yn yr ystafell ddosbarth. Dylai athrawon wneud y canlynol.

- Cadw at safonau proffesiynol o ran gwisg pan fyddan nhw o flaen y camera.
- Peidio â chael gwersi un-i-un, sy'n cael eu ffrydio'n fyw, â dysgwyr.
- Bod yn ymwybodol bod sylwadau'n cael eu clywed gan nifer o ddysgwyr mewn amgylchedd ar-lein, ac y byddai'n hawdd camddehongli'r sylwadau.
- Sicrhau eu bod yn dod â'r sesiwn i ben i bawb, gan wneud yn siŵr nad oes dysgwyr yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain a heb oruchwyliaeth mewn sesiwn ar ôl i'r athro adael.
- Bod yn ymwybodol o'r angen am gyfrinachedd; yn enwedig os ydych chi'n ffrydio gwers yn fyw o leoliad lle mae oedolion neu blant eraill yn bresennol.

**5.8 Recordio sesiynau ffrydio byw**

Mae cyfleuster recordio ar gael yn Microsoft Teams a Google Meet. **Mae'n rhaid recordio pob sesiwn dysgu byw.**

Gan fod recordiad ffrydio byw yn gyfystyr â data personol, rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau diogelu data eich ysgol a rheoliadau GDPR.

### 5.9 Ymddygiad y dysgwyr

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, dylech ddweud yn glir ar ddechrau pob sesiwn beth sy'n ddisgwyliedig a pha ymddygiad sy'n dderbyniol.

Dylai ymarferwyr addysg wneud y canlynol.

- Cyfleu'n glir y disgwylir ymddygiad 'o safon ystafell ddosbarth' gan bawb sy'n bresennol.
- Gosod y disgwyliadau o'r cychwyn.
- Creu a chytuno ar reolau sylfaenol clir ac ar safonau ymddygiad, sy'n seiliedig ar bolisi rheoli ymddygiad presennol yr ysgol.
- Egluro'r rheolau wrth gyflwyno'r wers, e.e. pwy sy'n cael siarad, sut mae gofyn cwestiwn neu ofyn am help. Os dyma'r tro cyntaf i wersi gael eu cynnal ar-lein, efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd newydd. Wrth ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio, bydd modd ymgysylltu mewn ffordd strwythuredig â'r rheini sy'n bresennol.
- Parhau i atgoffa'r dysgwyr am y rheolau a gytunwyd ar ddechrau pob gwers (Atodiad 2), ac egluro sut gallan nhw fynegi pryderon os oes angen.

## 6. Rheoli hidlo

- Os yw staff neu ddisgyblion yn dod ar draws deunyddiau anaddas ar-lein, rhaid adrodd am y safle i'r Cydlynydd e-Ddiogelwch.
- Bydd uwch staff yn sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dulliau hidlo a ddewisir yn addas, yn effeithiol ac yn rhesymol.

## 7. Rheoli technoleg ddatblygol

- Caiff technoleg ddatblygol ei hastudio am fanteision addysgu a gwneir asesiad risg cyn bod yr ysgol yn cael ei defnyddio.
- Dylai'r uwch dîm rheoli nodi y gall technoleg megis ffonau symudol â mynediad diwifr i'r rhyngrwyd fod y tu hwnt i systemau hidlo'r ysgol a gallant gyflwyno llwybr arall i ddeunyddiau a chyfathrebu annymunol a pheryglus.
- Ni chaiff ffonau symudol eu defnyddio yn ystod gwersi neu amser ysgol ffurfiol. Mae anfon negeseuon testun neu ffeiliau ymosodol neu anaddas drwy Bluetooth neu unrhyw ffordd arall wedi'i wahardd.

## 8. Penderfyniadau'r Polisi

### 8.1 Awdurdodi Mynediad i'r Rhyngrwyd

- Bydd yr ysgol yn cynnal cofnod diweddar o'r holl staff a disgyblion sy'n cael mynediad i systemau TGCh yr ysgol.
- Caniateir mynediad i'r rhyngrwyd yn unig wrth i oedolyn arddangos gyda goruchwyliaeth uniongyrchol wrth edrych ar ddeunyddiau ar-lein penodol a gymeradwywyd.
- Bydd gofyn i rieni lofnodi a dychwelyd ffurflen ganiatâd.
- Bydd gofyn i unrhyw un na chaiff ei gyflogi gan yr ysgol lofnodi dogfen defnydd derbyniol o adnoddau TGCh yr ysgol cyn cael mynediad i'r rhyngrwyd o safle'r ysgol.

### 8.2 Asesu risgiau

- Bydd yr ysgol yn cymryd yr holl ragofalon rhesymol i atal mynediad i ddeunyddiau anaddas. Fodd bynnag, oherwydd y raddfa ryngwladol a natur gysylltiedig cynnwys y rhyngrwyd, nid yw'n bosib gwarantu na fydd deunyddiau anaddas yn ymddangos ar gyfrifiadur sydd wedi'i gysylltu â rhwydwaith yr ysgol. Ni all yr ysgol dderbyn atebolrwydd dros unrhyw ddeunyddiau y deuir o hyd iddynt nag unrhyw ganlyniad cael mynediad i'r rhyngrwyd.

- Dylai'r ysgol archwilio TGCh i bennu a yw'r polisi e-ddiogelwch yn foddhaol a bod y polisi e-ddiogelwch yn cael ei roi ar waith mewn modd priodol ac effeithiol.

### 8.3 Cyfrifoldebau Staff

- Y mae aelod o staff sy'n mynd yn groes i gyngor ar ddiogelwch neu'n defnyddio e-bost neu'r rhyngrwyd at ddibenion amhriodol, yn agored i gael ei ddisgyblu.
- Mae staff sy'n rheoli'r systemau hidlo neu'n monitro'r defnydd a wneir o TGCh yn ysgwyddo cryn gyfrifoldeb, a rhaid eu goruchwylio'n briodol. Rhaid i'r gweithdrefnau ddiffinio sut i ddwyn defnydd amhriodol neu ddefnydd anghyfreithlon o'r TGCh i sylw'r uwch reolwyr.
- Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'r peryglon iddynt hwy eu hunain wrth reoli'r defnydd a wneir o TGCh, megis edrych ar ddelweddau amhriodol i ymchwilio eu tarddiad, a sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn eu lle i ddiogelu eu hunain.
- Rhaid dwyn unrhyw honiad o ymddygiad amhriodol i sylw'r uwch reolwyr a dilyn y camau priodol yn dilyn derbyn y gwybodaeth.

### 8.4 Defnydd cymunedol o'r rhyngrwyd

Bydd yr ysgol yn cysylltu â sefydliadau lleol i bennu ymagwedd gyffredin at e-ddiogelwch.

## 9. Mynd i'r afael â chwynion e-ddiogelwch

- Bydd uwch aelod o staff yn mynd i'r afael â chwynion yng nghyswllt camddefnyddio'r rhyngrwyd.
- Dylid cyfeirio unrhyw bryder am gamddefnydd gan staff at y Pennaeth.
- Rhaid delio â chwynion amddiffyn plant yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol.
- Caiff disgyblion a rhieni wybod am y weithdrefn gwyno.
- Bydd disgyblion a rhieni'n cael gwybod beth fydd yn digwydd i ddisgyblion sy'n camddefnyddio'r rhyngrwyd.
- Cynhelir trafodaethau â'r Swyddog Heddlu Cymunedol i bennu gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â materion anghyfreithlon posib.

### 9.1 Sut rydym yn ymateb?

Gall y Person Dynodedig Amddiffyn Plant ddarparu arweiniad os ydych yn pryderu am sut y mae plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn defnyddio'r rhyngrwyd.

### 9.2 Ymateb i Achos o Bryder

- Mae technolegau'r rhyngrwyd a chyfathrebu electronig yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ehangu eu profiadau dysgu a datblygu'u gallu i fod yn greadigol yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Serch hynny, mae'n bwysig cofio yn ogystal y peryglon sy'n gysylltiedig â'r modd y gellir defnyddio'r technolegau hyn.
- Dylai cydnabod a cheisio datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifainc wrth gyfathrebu a defnyddio'r technolegau hyn yn briodol, tra'n cadw'n ddiogel, a dangos parch tuag at eraill.
- Mae'r risgiau hyn i e-ddiogelwch yn codi oherwydd bod pobl yn gweithredu'n amhriodol neu hyd yn oed yn anghyfreithlon. Rhaid delio ag unrhyw fater a all godi ar lefel bersonol.
- Athrawon yw llinell flaen yr amddiffyn; hwy sy'n arsylwi ymddygiad y disgyblion ac y mae hynny'n hanfodol o ran canfod perygl i ddisgyblion ac o ran datblygu ymddiriedaeth fel bod materion yn derbyn sylw. Bydd digwyddiadau yn amrywio o'r drygioni neu weithred ddifeddwl i weithred anghyfreithlon a gynlluniwyd yn ofalus.
- Bydd yr adran hon yn gymorth i'r staff benderfynu pa gamau i'w cymryd a pha bryd i roi gwybod am ddigwyddiad sy'n peri pryder i'r person sydd â chyfrifoldeb am Ddiogelu Plant neu e-Ddiogelwch o fewn yr ysgol. Yn dilyn ymgynghori â'r person dynodedig amddiffyn plant gellir cyfeirio materion wedyn at Swyddog yr Awdurdod ar Ddiogelu Plant neu at yr Heddlu os bernir bod angen hynny.

## 10. Cyfathrebu

**10.1 Cyflwyno'r polisi e-ddiogelwch i ddisgyblion**

- Bydd rheolau e-ddiogelwch i'w gweld ym mhob ystafell lle defnyddir cyfrifiaduron a bydd trafodaethau rheolaidd â disgyblion.
- Caiff disgyblion wybod y bydd defnydd o'r rhwydwaith a'r rhyngrwyd yn cael ei fonitro mewn modd addas.
- Caiff rhaglen o hyfforddiant e-ddysgu ei ddatblygu.
- Caiff hyfforddiant e-ddiogelwch ei gynnwys yn y cynllun gwaith TGCh a/neu'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

**10.2 Staff a'r polisi e-ddiogelwch**

- Bydd pob aelod o staff yn derbyn Polisi e-Ddiogelwch yr Ysgol a chaiff pwysigrwydd y polisi ei esbonio wrthynt.
- Rhaid i staff fod yn ymwybodol y gellir monitro ac olrhain y rhwydwaith a thraffig y rhyngrwyd i'r defnyddiwr unigol.
- Caiff aelodau staff sy'n rheoli'r systemau hidlo neu fonitro defnydd TGCh eu goruchwylio gan yr uwch dîm rheoli gan weithio i weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi materion.
- Bydd staff yn defnyddio peiriant chwilio sy'n ddiogel i blant pob amser wrth fynd ar y rhyngrwyd gyda disgyblion.

**10.3 Cyflwyno'r Polisi i rieni a gofalwyr**

- Tynnir sylw rhieni a gofalwyr at Bolisi e-Ddiogelwch yr Ysgol mewn cylchlythyron, llawlyfr yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn rheadru rhestr o adnoddau e-ddiogelwch i rieni/gofalwyr.
- Bydd yr ysgol yn gofyn i bob rhiant newydd lofnodi'r cytundeb rhieni/disgyblion wrth gofrestru'r plant yn yr ysgol.

**Atodiad 1: Defnyddio'r rhyngrwyd - Gweithgareddau dysgu ac addysgu posib**

| **Gweithgareddau** | **Materion e-ddiogelwch allweddol** |
|---|---|
| Creu cyfeiriaduron gwe i ddarparu mynediad cyfleus i wefannau addas. | Dylid cael caniatâd rhieni.<br>Dylid goruchwylio disgyblion.<br>Dylid cyfeirio disgyblion at ddeunyddiau penodol, cymeradwy ar-lein. |
| Defnyddio peiriannau chwilio i gael gwybodaeth amrywiaeth o wefannau. | Rhaid bod y system hidlo'n actif ac yn cael ei gwirio'n aml.<br>Dylid cael caniatâd rhieni.<br>Dylai disgyblion gael eu goruchwylio.<br>Dylai disgyblion ddysgu pa ddefnydd o'r rhyngrwyd sy'n dderbyniol a'r hyn y dylent wneud os ydynt yn dod ar draws deunydd nad ydynt yn gyfforddus ag ef. |
| Cyfnewid gwybodaeth â disgyblion eraill a gofyn cwestiynau i arbenigwyr trwy e-bost neu flogiau. | Dylai disgyblion ddefnyddio cyfrifon e-bost neu flogiau cymeradwy.<br>Ni ddylai disgyblion fyth gyflwyno gwybodaeth bersonol.<br>Ystyried defnyddio systemau sy'n darparu cymedroli ar-lein e.e. SuperClubs Plus. |
| Cyhoeddi gwaith disgyblion ar wefan yr ysgol neu ar wefannau eraill. | Dylid cael caniatâd disgyblion a rhieni cyn cyhoeddi unrhyw beth.<br>Dylid hepgor enwau llawn disgyblion a gwybodaeth bersonol arall.<br>Dylai gwaith disgyblion gael ei gyhoeddi ar 'safleoedd a gymedrolir' yn unig. |
| Cyhoeddi delweddau gan gynnwys ffotograffau o'r disgyblion. | Dylid cael caniatâd rhieni i gyhoeddi ffotograffau.<br>Ni ddylai disgyblion fedru cael eu hadnabod io'r ffotograffau.<br>Ni ddylai enwau ffeiliau gyfeirio at y disgyblion wrth eu henwau.<br>Rhaid i'r staff sicrhau nad yw delweddau a gyhoeddir yn torri cyfreithiau hawlfraint. |
| Cyfathrebu syniadau mewn ystafelloedd sgwrsio neu fforymau ar-lein. | Dim ond ystafelloedd sgwrsio sy'n benodol at ddefnydd addysgol ac sydd wedi'u cymedroli y dylid eu defnyddio.<br>Dylid atal mynediad i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol eraill.<br>Ni ddylai disgyblion fyth gyflwyno gwybodaeth bersonol. |
| Fideo-gynadledda a chynadledda clywedol i gasglu a rhannu gwaith disgyblion. | Dylid goruchwylio disgyblion.<br>Dylai ysgolion ddefnyddio rhaglenni a reolir gan Awdurdodau Lleol a Chyflenwyr Addysgol cymeradwy yn unig. |

**Atodiad 2: Adnoddau defnyddiol i athrawon a rhieni**

Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP
www.ceop.gov.uk/
Childnet
www.childnet-int.org/
Cyber Café
http://thinkuknow.co.uk/8_10/cybercafe/cafe/base.aspx
Digizen
www.digizen.org/
Kidsmart
www.kidsmart.org.uk/
Think U Know
www.thinkuknow.co.uk/
South West Grid for Learning
http://swgfl.org.uk/
Family Online Safe Institute
www.fosi.org
Internet Watch Foundation
www.iwf.org.uk
Internet Safety Zone
www.internetsafetyzone.com
School Beat
https://www.schoolbeat.org/cy/
Parth e-ddiogelwch HWB
http://hwb.wales.gov.uk/esafety-index